

# ADRODDIAD Y



# GOVERNORS'

## **GAIR Y CADEIRYDD**

Ar ddechrau'r flwyddyn hon, ni allai unrhyw un ddychmygu sut y byddai 2020 wedi datblygu. Heb os, mae wedi troi allan i fod yn flwyddyn heriol i'r mwyafrif ohonom. Yn sicr, mae wedi profi i fod yn flwyddyn ddigynsail ym myd addysg. Prif flaenoriaethau Ysgol Eifionydd trwy gydol yr amser anodd hwn oedd sicrhau diogelwch a lles disgyblion wrth barhau â'u haddysg. Mae'r uwch dîm rheoli ynghyd â'r holl aelodau staff eraill wedi gweithio'n ddiflino i gyflawni'r blaenoriaethau hyn cyn belled ag y bo modd.

Nawr yn fwy nag erioed mae'n hanfodol bod disgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu, boed hynny yn yr ystafell ddosbarth neu'r gwaith a osodir ar-lein. Gyda arholiadau TGAU Haf 2021 wedi'u canslo mae angen i ddisgyblion CA4 weithio'n gyson trwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial ac ddim yn cyfyngu ar eu dewisiadau ôl-16. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi pob disgybl ar ei taith addysgol.

Mae misoedd cyntaf 2021 hefyd yn debygol o fod yn gyfnod anodd. Hoffwn sicrhau pob un ohonoch y bydd prif flaenoriaethau'r ysgol yn parhau i fod yn ddiogelwch a lles ein disgyblion wrth gefnogi eu datblygiad addysgol. Bydd yr addysgu effeithiol yn parhau yn yr ysgol, neu os y daw yn angenrheidiol, trwy ddysgu o bell. Er mwyn galluogi'r staff i wneud hyn yn llwyddiannus, gofynnwn yn garedig am eich gwyladwriaeth barhaus wrth arsylwi ar yr holl ragofalon diogelwch ac i gyfranogi'n galonnog eto mewn addysg gartref, pe byddem yn cael ein hunain yn y sefyllfa honno. Gan weithio gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod y pandemig hwn yn cael yr effaith leiaf ar addysg ein plant.

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi.

Yn gywir,  
Nerys Wyn Jones

---

## **WORD FROM CHAIRPERSON**

At the beginning of this year none of us could have predicted how 2020 would unfold. Undoubtedly it has turned out to be a challenging and disrupted year for most of us. It has certainly proved to be an unprecedented year in education. Ysgol Eifionydd's main priorities throughout this difficult time have been to ensure pupil safety and well-being whilst continuing their education. The senior management team together with all other members of staff have worked tirelessly to achieve these priorities as far as possible.

Now more than ever it is imperative that pupils engage fully with their learning, be it in the classroom or work set online. With Summer 2021 GCSE examinations cancelled KS4 pupils need to work consistently throughout the year in order to ensure that they fulfil their potential so as not to limit their post 16 choices. The school is committed to doing all that they can to support all pupils on their educational journey.

The first few months of 2021 are also likely to be a difficult time. I would like to reassure you all that the school's main priorities will continue to be the safety and well-being of our pupils whilst supporting their educational development. Effective teaching will continue at the school, or should it become necessary, through distance learning. To enable the staff to do this successfully we kindly ask for your continued vigilance in observing all safety precautions and to support and encourage your child to participate wholeheartedly in home schooling, should we find ourselves in that situation again. Working together, we can ensure that this pandemic has the minimum long term impact on our children's education.

Wishing you a Happy Christmas and a healthy New Year.

Yours Sincerely  
Nerys Wyn Jones

# Ysgol Eifionydd, Porthmadog, Gwynedd. LL49 9HS

Pennaeth/ Headteacher: Mr. Dewi Bowen B.Sc

Pennaethiaid Cynorthwyl / Assistant Headteachers:

Mrs. Gwyneth E Owen B.Add & Mrs. Lyn Parry Hughes B.A



---

Tachwedd/November 2020

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

## ADRODDIAD BLYNYDDOL RHIENI GYDA'R LLYWODRAETHWYR

Amgaeaf gopi o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr am y flwyddyn academaidd 2019-2020

**Mae hawl gan rieni i alw cyfarfod i drafod yr adroddiad. Ni chynhelir y cyfarfod os oes llai na 10% o rieni (neu 30 rhiant pa r'un bynnag sydd leiaf) yn gwneud cais am gyfarfod,**

Dear Parent/ Guardian,

## ANNUAL GOVERNORS REPORT TO PARENTS

Attached please find a copy of the Governors Annual Report for 2019-2020.

**Parents have the right to request a meeting to discuss the report. A meeting will not be held if there is less than 10% of parents (or at least 30 parents of registered pupils sign the petition).**

Yn gywir iawn/ Yours sincerely,

**Nerys Jones**

Cadeirydd y Corff Llywodraethol/Chair of Governors

---

## CYFARFODYDD BLYNYDDOL LLYWODRAETHWYR GYDA RHIENI

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 nid oes yn rhaid i Gyrrff Llywodraethu'r ysgol gynnal cyfarfodydd blynyddol gyda rhieni. Bellach mae'r ddeddf yn caniatáu i rieni ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r corff llywodraethu drwy gyfrwng deiseb.

Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu gynnal cyfarfod o fewn 25 diwrnod ysgol o dderbyn y deiseb, cyn belled â bod y ddeiseb yn cynnwys llofnod yr isafswm angenrheidiol o rieni, sef yr isafswm o'r canlynol:

1. Rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu
2. Rhieni 30 o ddisgyblion cofrestredig.

Mae'n rhaid i'r cyfarfod y mae'r rhieni wedi gofyn amdano drafod materion sy'n berthnasol i'r ysgol

Gellir cael mwy o fanylion ar sut i ofyn am gyfarfod drwy naill ai gysylltu â'r ysgol, fynd i safle we'r ysgol neu fynd ar safle we'r cynulliad.

***Ni dderbyniwyd cais gan rieni i gynnal cyfarfod blynyddol gyda'r llywodraethwyr yn 2019-2020  
No requests were received from parents for Governors annual meeting during 2019-2020***

Ffôn / Phone: (01766) 512114

e-bost/e-mail: cyffredinol@eifionydd.gwynedd.sch.uk

Safle Wê/Website: <http://www.ysgol Eifionydd.org>

Rhif testun yr ysgol/School's text no: 4417 6552 2003

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o sut y cyflawnodd y Pennaeth a'r Llywodraethwyr eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn. Bydd copi o'r adroddiad ar gael i rieni drwy ymweld â safle we'r ysgol moodle.eifionydd.gwynedd.sch.uk

| <b>MANYLION AELODAETH Y CORFF LLYWODRAETHU/MEMBERS OF GOVERNING BODY</b> |                            |
|--|----------------------------|
| <b><u>Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Leol</u></b>                      | <b><u>Cyfnod i ben</u></b> |
| Cyng. Selwyn Griffiths   | 31.8.21                    |
| Cyng. Nia Jeffreys   | 31.8.21                    |
| Mrs Bethan Nickson   | 31.8.20                    |
| Cyng. Eirwyn Williams  | 31.8.21                    |
| <b><u>Aelodau Cyfetholedig</u></b>                                       | <b><u>Cyfnod i ben</u></b> |
| Mr Gwilym Jones  | 31.8.22                    |
| Mr Dewi Lewis  | 31.8.23                    |
| Mrs Patricia Williams  | 31.8.20                    |
| Ms Nerys Wyn Jones (Cadeirydd)   | 31.8.21                    |
| <b><u>Cynrychiolwyr Rhieni</u></b>                                       | <b><u>Cyfnod i ben</u></b> |
| Mrs Nia Fon Lane (Is-gadeirydd)  | 31.8.20                    |
| Mrs Marian Grace Jones   | 31.8.22                    |
| Mr Mark Jones  | 31.8.20                    |
| Mrs Siwan Roberts  | 31.8.23                    |
| Mr Gareth Iddon Edwards  | 31.8.22                    |
| <b><u>Cynrychiolwyr Staff Dysgu</u></b>                                  | <b><u>Cyfnod i ben</u></b> |
| Mr Catrin Elan Roberts   | 31.8.21                    |
| Mr Roger Vaughan   | 31.8.21                    |
| <b><u>Cynrychiolwyr Staff Ategol</u></b>                                 | <b><u>Cyfnod i ben</u></b> |
| Miss Llio Meleri Dudley  | 31.8.20                    |
| <b><u>Aelodau'r Cyngor Ysgol</u></b>                                     | <b><u>Cyfnod i ben</u></b> |
| Holly Jones  | 31.8.21                    |
| Megan Thomas   |                            |

**Pennaeth:** Mr Dewi Rhys Bowen B.Sc  
**Cadeirydd y Llywodraethwyr:** Ms Nerys Jones  
**Clerc i'r Llywodraethwyr:** Mrs Marian Crowe (Swyddog Gweinyddol), Ysgol Eifionydd.

*Gellir cysylltu â'r Cadeirydd drwy'r Pennaeth, neu trwy law Clerc y Llywodraethwyr*

#### **Anwytho llywodraethwyr newydd**

Mae'n bleser croesawu aelodau newydd y Corff Llywodraethu ar ddechrau eu cyfnod. Dymunaf bob llwyddiant iddynt yn eu gwaith.

## DYDDIADAU CYFARFODYDD Y LLYWODRAETHWYR/GOVERNORS MEETINGS

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyfarfu'r Corff Llywodraethu fel a ganlyn:-

|   |   |          |
|---|---|----------|
| Corff Llawn Cyntaf y Tymor Newydd               | - | 24/9/19  |
| Is Bwyllgor Cyllid                              | - | 1/10/19  |
| Is Bwyllgor Adolygu Tal a rheoli perfformiad    | - | 1/10/19  |
| Is Bwyllgor Iechyd & Diogelwch ac Adeiladau     | - | 15/10/19 |
| Is Bwyllgor Penodiadau a Staffio                | - | 22/10/19 |
| Is Bwyllgor Lles a Cwricwlwm                    | - | 22/10/19 |
| Corff Llawn (Ail gyfarfod -Tymor y Gaeaf)       | - | 26/11/19 |
| Is Bwyllgor Penodiadau a Staffio                | - | 21/1/20  |
| Is Bwyllgor Cyllid                              | - | 21/1/20  |
| Is Bwyllgor Lles a Cwricwlwm                    | - | 10/3/20  |
| Is Bwyllgor Iechyd & Diogelwch ac Adeiladau     | - | 10/3/20  |
| Corff Llawn (Trydydd cyfarfod -Tymor y Gwanwyn) | - | 17/3/20  |
| Is Bwyllgor Cyllid                              | - | 12/5/20  |
| Is Bwyllgor Cwricwlwm a Lles                    | - | 2/6/20   |
| Corff Llawn (Cyfarfod olaf -Tymor yr Haf)       | - | 23/6/20  |

## POLISIAU

Gweler rhestr o'r polisiau a adolygwyd/fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethu yn ystod y flwyddyn addysgol 2019-20.

- Polisi Codi Tal am Weithgareddau Addysgol
- Polisi Codi Tal am Wersi Offerynnol
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Cwricwlaidd Adrannau
- Polisi Mynediad I'r Ysgol Eifionydd
- Polisi Amddiffyn Plant
- Polisi Gwisg Ysgol
- Polisi Gosod Adeiladau'r Ysgol
- Polisi Mynediad i'r Ysgol
- Polisi Ymweliadau Addysgol Gwynedd.

## CYNGOR YSGOL

Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn brysur eto eleni ac yn cwrdd o leiaf unwaith y mis, gyda rhai o'r aelodau yn darparu adroddiadau am eu gwaith ac yn eu cyflwyno yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethol unwaith y tymor.

## CYLLIDEB YSGOL EIFIONYDD 2019-2020

*Ni dalwyd costau teithio i unrhyw un o aelodau'r corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn.*

*Cafwyd cyfraniad gan Mws Piws a Cyngor Cymuned Porthmadog tuag at noson dathliadau yr ysgol yn 125 mlynedd oed*

|                                      | CYLLIDEB | YMR + GWIR<br>GOST | GWEDDILL ar<br>31/3/20 |
|--------------------------------------|----------|--------------------|------------------------|
| <b>GWEITHWYR</b>                     |          |                    |                        |
| <b>Staff Addysgu</b>                 |          |                    |                        |
| Athrawon                             | 1236663  | 1231503.84         | 5159.16                |
| Athrawon ADY                         | 28051    | 26966.39           | 1084.61                |
| Llanw Arall                          | -9900    | -11907.99          | 2007.99                |
| Llanw Ad daliadau - Yswiriant Salwch | 25069    | 3143.19            | 21925.81               |
| Baich Athrawon                       | 62595    | 61290.42           | 1304.58                |
| Uwch Oruchwylwyr Amser Cinio         | 7928     | 9482.85            | -1554.85               |
| Gwariant Dysgu Proffesiynol          | 8901     | 6064.82            | 2836.18                |
| Uned Cynhwysiad                      | 170      | 53.27              | 116.73                 |
|                                      |          |                    |                        |

|   |        |           |          |
|---|--------|-----------|----------|
| <b>Staff Ategol</b>                         |        |           |          |
| Staff Gweinyddol/Technegwyr                 | 116003 | 110886.36 | 5116.64  |
| Staff yr Awr                                | 31276  | 27529.85  | 3746.15  |
| Cymorthyddion AAA                           | 132214 | 103554.29 | 28659.71 |
| Gwariant Datblygu Disgyblion ( Amddifadedd) | 20078  | 20078     | 0        |
| Arolygwyr Arholiadau                        | 1500   | 1139.76   | 360.24   |
| Costau Hysbysebu                            | 0      | 0         | 0        |
|   |        |           |          |
| <b>ADEILADAU</b>                            |        |           |          |
| Cynllun Datblygu Adeiladau                  | 24270  | 23954.26  | 315.74   |
| Cynnal a Chadw Cyffredinol                  | 26253  | 19041.41  | 7211.59  |
| Cynnal a Chadw Newydd                       | 0      | 0         | 0        |
| Defnyddiau Glanhau                          | 960    | 1048.45   | -88.45   |
| Dodrefn                                     | 350    | 404.7     | -54.7    |
|   |        |           |          |
| Trethi                                      | 39710  | 39710     | 0        |
| Dwr   | 8906   | 8178.87   | 727.13   |
| Nwy   | 19594  | 17768.56  | 1825.44  |
| Trydan                                      | 22591  | 25135.26  | -2544.26 |
| Cynllun Rheoli Carbon                       | 9784   | 6327      | 3457     |
|   |        |           |          |
| <b>Cytundebau</b>                           |        |           |          |
| Glanhau                                     | 59530  | 59530     | 0        |
| Goruchwyllo Adeiladau - Adain Eiddo         | 3780   | 3780      | 0        |
| Cynllun Datblygu Diogelwch                  | 4451   | 3588.87   | 862.13   |
| Offer Ymladd Tan                            | 2204   | 1324.4    | 879.6    |
|   |        |           |          |
| <b>CLUDIANT</b>                             |        |           |          |
| Lwfansau Ceir                               | 600    | 854.36    | -254.36  |
| Cludiant Cyrsiau Coleg                      | 9375   | 5212.78   | 4162.22  |
| Bysus                                       | 2500   | 1582.5    | 917.5    |
| Bws Mini                                    | 900    | 1295.58   | -395.58  |
|   |        |           |          |
| <b>LWFANS Y PEN</b>                         |        |           |          |
| Adrannau                                    | 19000  | 20477.31  | -1477.31 |
| Adnoddau                                    | 500    | 648.53    | -148.53  |
| Anghenion Arbennig                          | 250    | 297.98    | -47.98   |
| Astudiaethau'r Gweithle                     | 100    | 0         | 100      |
| Clwb Drama                                  | 100    | 43.86     | 56.14    |
| Cronfa Tymor Hir Cyfrifiaduron              | 26133  | 27092.99  | -959.99  |
| Cyfieithu                                   | 400    | 0         | 400      |
| Cymorth Cyntaf                              | 580    | 738.25    | -158.25  |
| Cyngor Disgyblion                           | 50     | 0         | 50       |
| Cwricwlwm                                   | 5000   | 2915.15   | 2084.85  |
| Gyrfaoedd                                   | 120    | 0         | 120      |
| Llungopio                                   | -2800  | -3497.63  | 697.63   |
| LLyfrgell                                   | 589    | 526.5     | 62.5     |
| Llythrennedd                                | 500    | 528.38    | -28.38   |
| Marc Ansawdd                                | 0      | 0         | 0        |

|   |         |            |           |
|---|---------|------------|-----------|
| Technoleg Hybysaeth   | 3000    | 3000       | 0         |
| Cyllid Pennaeth   | 500     | 252.71     | 247.29    |
| Cyllid Llywodraethwyr                                       | 50      | 0          | 50        |
|   |         |            |           |
| <b>CYFL A GWASANAETHAU</b>                                  |         |            |           |
| Defnyddiau Swyddfa  | 3000    | 2140.56    | 859.44    |
| Post  | 1709    | 1676.39    | 32.61     |
| Arholiadau  | 41979   | 36362.77   | 5616.23   |
| Ffôn  | 2350    | 1496.75    | 853.25    |
|   |         |            |           |
| <b>GWASANAETHAU ALLANOL</b>                                 |         |            |           |
| Pyllau Nofio  | 2284    | 834.16     | 1449.84   |
| Cyrsiau Allanol CA4   | 0       | -150       | 150       |
| Gwariant Gwella Addysg                                      | 20443   | 20267.16   | 175.84    |
| Gwariant Cynllun Plant mewn Gofal                           | 2044    | 2017.26    | 26.74     |
|   |         |            |           |
| <b>CYNLLUN OFFERYNNOL –<br/>Gwasanaeth William Matheias</b> |         |            |           |
| Cynllun Offerynnol - GWARIANT                               | 9185    | 9708       | -523      |
| Cynllun Offerynnol - INCWM                                  | 0       | -3090      | 3090      |
| Cynllun Busy Bees   | 0       | 0          | 0         |
|   |         |            |           |
| <b>CYTUNDEBAU CYNNAL</b>                                    |         |            |           |
| CYNNAL - Atal firws a hidlo mynediad                        | 1859    | 0          | 1859      |
| Cefnogaeth Systemau Rheolaethol                             | 9566    | 8440       | 1126      |
| Cefnogi Offer cyfrifiadurol                                 | 12523   | 12523      | 0         |
| CYNNAL - Cydlynnu CPYU                                      | 0       | 0          | 0         |
| CYNNAL - Dadansoddi Canlyniadau                             | 0       | 0          | 0         |
| Patrymlun hunan arfarniad ar lein                           | 0       | 0          | 0         |
| Cynllun Partiau - Profion Trydanol                          | 1514    | 0          | 1514      |
|   |         |            |           |
| <b>CYTUNDEBAU SIROL</b>                                     |         |            |           |
| Gwasanaeth Rhwydwaith Gwynedd                               | 5684    | 5684       | 0         |
| Gwasanaeth Cyllidol   | 452     | 452        | 0         |
| Rheoli Banc/Incwm   | 585     | 585        | 0         |
| Cyflogau  | 4907    | 4907       | 0         |
| Cynnal Tiroedd  | 10118   | 10508.8    | -390.8    |
|   |         |            |           |
| <b>CYTUNDEB GWASANAETH DARPARU ARLWYAETH</b>                |         |            |           |
| Prydau Bwyd - GWARIANT                                      | 34497   | 121202.13  | -86705.13 |
| Prydau Bwyd - INCWM   | 0       | -97418.39  | 97418.39  |
|   |         |            |           |
| ARIAN WRTH GEFN   | 469     | 0          | 469       |
| Llog ar Falansau  | 0       | -1350      | 1350      |
| <b>CYFANSWM GWARIANT</b>                                    | 2115546 | 1998342.67 | 117203.33 |
|   |         |            |           |
| <b>INCWM</b>  |         |            |           |
| Gosodiadau Nos  | -2242   | -3180      | 938       |

|                                |                |                   |                  |
|--------------------------------|----------------|-------------------|------------------|
| Gosodiadau - Dydd              | -565           | -540              | -25              |
| Incwm Arall                    | 0              | -8536             | 8536             |
| Grant Codi Safonau CA3         | 0              | 0                 | 0                |
| Grant Datblygu Disgyblion      | -32200         | -32200            | 0                |
| Grant ANG                      | 0              | 0                 | 0                |
| Grant Celfyddydau Cymru        | 0              | 0                 | 0                |
| Grant Cyrsiau Rhwydwaith       | -3152          | -1506.89          | -1645.11         |
| Grant Dysgu Proffesiynol       | -13902         | -13907            | 5                |
| Grant Gwella Addysg            | -20443         | -20443.08         | 0.08             |
| Grant Plant Mewn Gofal         | 0              | -4000             | 4000             |
| Grant Pensiwn Athrawon         | -44457         | -41922.61         | -2534.39         |
| Grant Refeniw Hylendid Merched | 0              | 0                 | 0                |
| Grant Tal Athrawon             | -8618          | -8634.26          | 16.26            |
|                                |                |                   |                  |
| <b>CYFANSWM INCWM</b>          | <b>-125579</b> | <b>-134869.84</b> | <b>9290.84</b>   |
| <b>CYFANSWM Y GYLLIDEB</b>     | <b>1989967</b> | <b>1863472.83</b> | <b>126494.17</b> |

### CRYNODEB O BERFFORMIAD YSGOLION UWCHRADD

Crynodeb o gyrrhaeddiadau yr ysgol/Summary of school performance 2019

**CLICIWCH AR Y LINC ISOD/CLICK ON THE LINK BELOW:**



SSSP 2019.xlsx

**CLICIWCH AR Y LINC ISOD/CLICK ON THE LINK BELOW:**

**Adroddiad Dilysu Ysgol CA3 2019/School validation Report 2019**



Adroddiad dilysu  
ysgol 2019 CA3.pdf



SchoolValidationRe  
port 2019CA3.pdf

### PRESENOLDEB 2019-2020

Yr oedd 384 o ddisgyblion ar lyfrau'r ysgol ar 1af o Fedi, 2019 gyda 22.18 o athrawon. Y rhif mynediad am y flwyddyn 2020/2021 yw 376.

Dyma ffigyrau'r ysgol, fesul blwyddyn a fesul tymor ar gyfer 2019-20

|             | Presenoldeb |       |       |
|-------------|-------------|-------|-------|
|             | Tym 1       | Tym 2 | Tym 3 |
| Blwyddyn 7  | 96.7%       | 95.8% |       |
| Blwyddyn 8  | 91.9%       | 90.7% |       |
| Blwyddyn 9  | 92.3%       | 93.2% |       |
| Blwyddyn 10 | 93.2%       | 90.4% |       |
| Blwyddyn 11 | 90.5%       | 92.4% |       |



**ABSENOLDEBAU AWDURDODEDIG am y flwyddyn: 6.12 %**

**ABSENOLDEBAU ANAWDURDODEDIG am y flwyddyn: 1.83 %**

**CYFANSWM ABSENOLDEB 7.95%**

Targed cyfartaledd presenoldeb am 2019-2020 oedd 96%. Ni gyrhaeddwyd hyn. Search hyn mae'r canran yn parhau yn gymharol uchel, sef 93%, am y ddau dymor. (Ni welir canranau ar gyfer Tymor 3 yn sgil sefyllfa COVID). Absenoldeb sylweddol criw bach o ddisgyblion sydd yn bennaf gyfrifol am y gostyngiad yn y canradd presenoldeb yn hytrach na disgyblion yr ysgol yn gyffredinol. Mae'r Swyddog Lles yn cydweithio gyda'r rhieni i geisio sicrhau cydymffurfiaeth.

Noder na chymeradwyir i deuluoedd drefnu gwyliau yn ystod y tymor, yn enwedig os yw'r disgyblion ym mlwyddyn 10 ac 11, gan fod absenoldeb o'r fath yn sicr o amharu are u addysg. Dylid cysylltu â'r Pennaeth i drafod unrhyw gais i fynd â disgybl o'r ysgol ar wyliau yn ystod tymor ysgol.

Diolch yn fawr i Mrs Lyn Parry Hughes am ei gwaith caled o yrru ymlaen â'r strategaeth presenoldeb.

Mae'r Corff Llywodraethu yn cefnogi strategaeth presenoldeb yr ysgol ac yn ddiolchgar iawn i Mrs Lyn Parry Hughes am ei gwaith caled yn ei oruchwylio a'i yrru 'mlaen.

## CYRCHFANNAU DISGYBLION SYDD DROS 16 OED – 2019-2020

Disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol 2019-2020 =

### PARHAU I AROS AM Y WYBODAETH GAN GYRFA CYMRU

|  |  |
|--|--|
| Cwrs mewn ysgol neu unrhyw gwrs addysg bellach |  |
| Hyfforddiant                                   |  |
| Gweithio                                       |  |
| Di waith                                       |  |
| Dim gwybodaeth                                 |  |
| Wedi symud o'r ardal                           |  |
| Arall  |  |

## CYSYLLTIADAU Â'R GYMUNED

- Codwyd £70 gan grŵp o ddisgyblion BAC Her Sgiliau Cymunedol ar gyfer elusen Cancr Macmillan trwy werthu cacennau liw cyd- ddisgyblion.
- Codwyd £309 tuag at yr elusen Surfers Against Sewrage ac i deithiau ysgol gan grŵp o ddisgyblion BAC Her Sgiliau Cymunedol.
- Codwyd pres i elusen Cancr *Click Sargent* gan ddisgyblion Her Gymunedol BAC blwyddyn 11 trwy daflu sbwnj at athrawon. Llwyddodd y pennaeth gadw yn sych!
- Codwyd tua £300 tuag at yr elusen Plant Mewn Angen gan ddisgyblion yn gwisgo dillad eu hunan.
- Unwaith eto er mwyn ymateb i'r argyfwng tloidi bu i'r ysgol osod yr her o gasglu 1,000 o eitemau bwyd sych neu mewn tin ar gyfer y Banc Bwyd Lleol.
- Diolch i drefniadau Mrs Miriam Amlyn fe gasglwyd dros 1005 o eitemau ar gyfer banciau bwyd lleol ym Mhwillheli a Blaenau Ffestiniog.
- Diolch i Miss Llio Dudley bu criw o ddisgyblion yr ysgol diddanu cwsmeriaid Tesco gyda chaneuon Nadoligaidd a chodwyd £90. Aethant ymlaen wedyn i dyddanu Gartrefi Henoed Bodawen a Hafod y Gest
- Rhoddwyd gyflwyniad i'r holl ysgol gan yr Heddlu ynglŷn â diogelwch yn ystod noson tân gwyllt a chalan gaeaf.
- Trafodwyd ymddygiad priodol ar y tren gyda disgyblion oedd yn teithio ar drenau yn rheolaidd gan cwmni trenau Trefnidiaeth Cymru.
- Dysgodd sioe deithiol 'Crag Rats' i ddisgyblion blwyddyn 9 am beryglon cyffuriau.
- Mae rhai o disgyblion blwyddyn 10 Gwobr Dug Caeredin wrthi yn datblygu gardd cymunedol Canolfan Glaslyn.
- Codwyd dros £488 ar gyfer yr Adran Addysg Gorfforol gan Ras Sion Corn lle roedd disgyblion yr ysgol a staff yn rhedeg.ras o amgylch yr ysgol.

- Cynhaliwyd cystadleuaeth Talent Eifionydd. Bu llawer o eitemau gwefreiddiol gan gynnwys Cyfeiliant Piano, Canu, Dawnsio a Hud a Lledrith. Diolch i Lowri Gwynne a Tudur Evans, cyn ddisgyblion o'r Ysgol a sêr Rownd a Rownd am feirniadu'r gystadleuaeth.
- Cynhaliwyd prynhawn coffi yn Ysgol Eifionydd ar gyfer cyn staff a staff presennol ar 10fed o Ragfyr, 2019 fel rhan o ddathliadau 125 o flynyddoedd ers sefydlu'r ysgol. Trefnwyd arddangosfa o luniau o ddigwyddiadau yn yr ysgol o 1897 trwy i'r ganrif bresennol yn Llyfrgell yr ysgol. Diolch i Emma a Noa am ein diddanu a Mrs Helen Morris a Mrs Gwyneth Owen am y lluniau. Bu y pwn yn un llwyddiannus iawn a braf oedd gweld cymaint o wynebau cyfarwydd.
- Ni gynhaliwyd Cyngerdd Nadolig eleni gan fod staff ac yn arbennig Miss Llio Dudley yn brysur iawn yn trefnu Cyngerdd i ddathlu 125 o flynyddoedd yn y Ganolfan yn ystod tymor y Gwanwyn. Cafwyd cyngerdd llwyddiannus iawn gyda cyn disgyblion enwog a disgyblion yr ysgol yn cymeryd rhan.

#### YMWELIADAU'N YMWNEUD Â'R CWRICWLWM

- Trefnwyd taith i Lerpwl i weld Sioe Les Mis gan yr Adran Gerdd.
- Cynhaliwyd daith maes TGAU i Betws y Coed gan yr adran Ddaearyddiaeth.
- Trefnwyd ymweld â materion cyfraith a threfn gyda blwyddyn 9 ar sut mae'r llys yn gweithio 'Justice in a Day'.
- Mae TRAC yn parhau i weithio yn agos gyda disgyblion sydd mewn peryg o ddadrhithio gyda addysg ac wedi trefnu nifer o weithgorddau amrywiol o fewn y Parc Cenedlaethol. e.e. adeiladu walydd, dringo a beicio mynydd.
- Bu i nifer o ddisgyblion blwyddyn 6 ymweld gyda'r ysgol i gael blas o wersi Gwyddoniaeth, Technoleg, Saesneg a Chwaraeon.

### IECHYD A DIOGELWCH

|                                      |  |
|--------------------------------------|--|
| <b>GWAITH A GWBLHAWYD 2019 -2020</b> | <p><b>TU MEWN I'R ADEILAD</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tacluso gwaith paent y coridor o'r Swyddfa i lawr at SA3</li> <li>• Gosod nenfwd newydd yn nhoiledau'r genethod a theilsio</li> <li>• Moderneiddio'r toiled anabl</li> </ul> <p><b>TU MEWN I'R ADEILAD</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tacluso gwaith paent y coridor o'r Swyddfa i lawr at SA3</li> <li>• Gosod nenfwd newydd yn nhoiledau'r genethod a theilsio</li> <li>• Moderneiddio'r toiled anabl</li> <li>• Peintio'r ystafell athrawon</li> <li>• Peintio swyddfeydd UDRh</li> <li>• Gosod lloriau mewn 4 ystafell ddosbarth, 2 swyddfa a'r ystafell athrawon</li> <li>• Trwsio'r 'retractable seating' yn y neuadd</li> </ul> <p><b>TU ALLAN I'R ADEILAD</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gosod facias a soffits newydd</li> <li>• Gosod drws allanol newydd yn y neuadd/ffreutur</li> </ul> |
| <b>CYNLLUNIAU 2019-2020</b>          | <p><b>TU MEWN I'R ADEILAD</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Peintio'r coridor o'r Swyddfa i lawr ar SA3</li> <li>• Peintio'r neuadd</li> <li>• Moderneiddio'r Ystafell Feddygol</li> <li>• Gosod ffynhonnau dwr</li> <li>• Llawr newydd ar doiledau'r merched ac Ystafell Dwyfor</li> <li>• Moderneiddio toiledau staff a leolir o amgylch yr ysgol: paentio, lloriau, teilsio, toiledau newydd.</li> </ul> <p><b>TU ALLAN I'R ADEILAD</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau a'r gwaith o osod facias a soffits newydd ar yr adeilad gwreiddiol</li> <li>• Gosod drws allanol newydd ar ystafelloedd dosbarth Addysg Gorfforol a'r Gampfa</li> </ul>  |
| <b>GWARIANT CYFALAF</b>              | Ni chafwyd dim gwybodaeth gan y Sir am wariant ar yr adeilad/safle yn ystod Haf 2020.  |

Bu i'r Llywodraethwyr fuddsoddi yn helaeth yn adnewyddu a gwella ansawdd adeiladau'r ysgol yn ystod 2019-2020.

Y mae'r Ysgol yn cadw data personol am ddisgyblion a staff ac wedi cofrestru hynny gyda'r Cofrestru Data.

Mae sicrhau diogelwch disgyblion a staff yr ysgol yn flaenoriaeth gan y Corff Llywodraethu. Bu trafodaeth am drefniadau'r ysgol pan mewn argyfwng a chymeradwywyd y cynlluniau a gyflwynwyd.

Mae camerau diogelwch sydd yn recordio wedi eu gosod o amgylch yr ysgol.

Gofynnir i rieni /llywodraethwyr/ ymwelwyr/contractwyr wneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer ymweld â'r ysgol pan fo hynny yn bosib. Dilynr y drefn ffurfiol o arwyddo mewn/allan yn y Brif Swyddfa a rhoddir bathodyn adnabod i bawb sydd yn cael mynediad i'r ysgol.

## DYDDIADAU A THYMHORAU YSGOL/SCHOOL TERM DATES 2020-2021

### TYMOR

|              |                                     |
|--------------|-------------------------------------|
| Hydref 2020  | 1 Medi 2020 – 18 Rhagfyr 2020       |
| Gwanwyn 2021 | 4 Ionawr 2021 –26 Mawrth 2021       |
| Haf 2021     | 12 Ebrill 2021 - 20 Gorffennaf 2021 |

### GWYLIAU

|                      |                                |
|----------------------|--------------------------------|
| Hanner tymor Hydref  | 26 Hydref- 30 Hydref 2020      |
| Gwyliau Nadolig      | 21 Rhagfyr 2020 -1 Ionawr 2021 |
| Hanner tymor Gwanwyn | 15 - 19 Chwefror 2021          |
| Gwyliau'r Pasg       | 29 Mawrth - 9 Ebrill, 2021     |
| Calan Mai            | 3 Mai 2021                     |
| Hanner tymor Haf     | 31 Mai -4 Mehefin 2021         |
| Gwyliau Haf          | 21 Gorffennaf – 31 Awst 2021   |

|                   |  |
|-------------------|--|
| Oriau agor ysgol: | 9.00yb – 3.30yp (Egwyl cinio 12.25yp – 1.25yp)<br>Amser cofrestru bore: 08.55 – 9.15<br>Amser cofrestru prawn: 1.25 – 1.30 |
|-------------------|--|

Bydd y disgyblion yn dychwelyd l'r ysgol dydd Mercher 2 Medi, 2020

(Yn sgil sefyllfa COVID - bu i'r ysgol ail agor dydd Mawrth 1/9/20 l staff, dydd Iau 3/9 a 4/9 l ddisgyblion BL7. Dydd Llun 7/9 l BL7, 10 ac 11 a dydd Mercher 9/9/20 l ddisgyblion BI9)

Cynhelir 4 diwrnod Hyfforddiant mewn swydd a 1 diwrnod dan reolaeth Ysgol.sef 1/9/20  
Daw hyn a nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 190.

## PROSPECTWS YSGOL/SCHOOL PROSPECTUS

Gellir gweld prospectws yr ysgol ar wefan Ysgol Eifionydd.

<http://ysgoleifionydd.org>

## MAES CHWARAEON

### Gweithgareddau chwaraeon sydd yn cael eu cynnig

Cynigir Pêl droed, pêl rwyd, hoci, rhedeg, traws gwlad, rygbi rownderi a gymnasteg fel gweithgareddau.

Mae cyswllt agos gyda'r Ganolfan Hamdden lle mae'r disgyblion yn mynychu ar gyfer gwersi nofio achub bywyd, badminton a ffitrwydd.

### Cyfleusterau

Mae gan yr ysgol un faes pêl-droed a dau faes rygbi, cyrtiau ar gyfer tenis a phêl rwyd, llain ar gyfer rownderi a wiced bob tywydd ar gyfer criced. Yn Neuadd Ddawns gymunedol yr ysgol ceir wal ddringo ac adnoddau ar gyfer hyfforddiant dringo a ffitrwydd.

### Amserlen

Mae'r ysgol yn cynnig amserlen pum cyfnod ar ungain. Neilltuir dau gyfnod yr wythnos ar gyfer Addysg Gorfforol a Chwaraeon yn CA3 ac un yn CA4. Neilltuir dau gyfnod yr wythnos ar gyfer Addysg Gorfforol fel pwnc TGAU dewisol.

### Digwyddiadau

- Trefnwyd taith pêl droed i Gaerdydd i nifer o ddisgyblion blwyddyn 7 a 8 gan yr Adran Addysg Gorfforol i weld gêm pêl droed cyfeillgar Cymru yn erbyn Belarws.
- Bu i Rachel Taylor, cyn gaptin tîm Rygbi merched Cymru, ymweld ag Ysgol Eifionydd i gyflwyno sesiynau hyfforddi i ferched blwyddyn 8. Cafodd y disgyblion hefyd gyfle i gael tynnu eu llun gyda Thlws a Choron Driphlyg y 6 Gwlad.

### Llwyddiannau

Dyma restr o lwyddiannau disgyblion ym maes chwaraeon yn ystod y flwyddyn.

- Llongyfarchiadau i Grace Mcmeeken BL10 am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth gymnasteg trwy Gymru
- Llongyfarchiadau i Deio Williams a Gethin Jolly BL11 ar gael eu dewis i chwarae Rygbi i dîm ieuenctid Rygbi Gogledd Cymru
- Llongyfarchiadau hefyd i Maddie Brookes-Jones, Nel Evans a Lois Jones Blwyddyn 11 am gael eu dewis i chwarae Hoci i dîm Genethod Ysgolion Gwynedd o dan 16.
- Llongyfarchiadau i dimau peldroed y bechgyn a timau hoci y merched. Cafwyd nifer o lwyddiannau mewn gemau yn ystod y flwyddyn gyda'r tim yn ennill mwyafrif o'i gemau.
- Cynhaliwyd twrnament pêl droed pump bob ochr bechgyn yr Urdd i flwyddyn 8. Enilliodd yr ysgol dair gêm allan o bump
- Cafodd blwyddyn 8 bechgyn gyfle i chwarae yn nhwrnament pêl fasedd yr Urdd.
- Daeth yr ysgol yn 3ydd mewn cystadleuaeth bowldro Sirioli 5X60 i flwyddyn 8. Cedri Pritchard, Charlie Wood a Wil Bentley oedd aelodau y tîm buddugol.
- Llongyfarchiadau i Anna Pugh Blwyddyn 7 ar ddod yn gyntaf, ac i Iago Rhys Blwyddyn 11 ar ddod yn ail yn eu ras traws gwlad Meirion-Dwyfor. Llongyfarchiadau hefyd i'r disgyblion i gyd a gymerodd ran yn y cystadleuthau Trawsgwlad.
- Cafwyd llwyddiant mewn Rygbi bechgyn i flwyddyn 9, da iawn fechgyn yn drechu tim cryf Ysgol Dyffryn Conwy.
- Rydym yn ddiolchgar bod criw o ddisgyblion blwyddyn 10 wedi gwirfoddoli 50 awr ar gyfer Clwb Pêl Droed Porthmadog i helpu hyfforddi gyda plant oed cynradd bob dydd Llun.

### GWEITHGAREDDAU 5 X 60

Mae gweithgareddau 5 x 60 yn parhau yn yr ysgol- Dodgeball, pêl droed rygbi, ffitrwydd, gym, pêl rhwyd, hoci, beicio mynydd a caiacio. Diolch yn arbennig i Mr Gethin Jones am gynnal sesiynau peldroed i'r disgyblion. Yn ystod y flwyddyn mae nifer o ddisgyblion wedi cael cyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau.

## CWRICWLWM

### CA3

Mae'r ysgol yn cyflwyno gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ond hefyd yn diwallu anghenion pob disgybl. Ar hyn o bryd mae tri dosbarth dysgu ym mlynnyddoedd 7,8 a 9, gyda niferoedd o rhwng 20 a 30 ymhob un. Ym MI 7 caiff y disgyblion eu dysgu mewn dau grŵp gallu cymysg ac un grŵp llai ar gyfer cymorth ychwanegol o hanner tymor yr Hydref ymlaen. Ym MI 8 mae'r disgyblion yn cael eu grwpio yn y Gymraeg, Saesneg a Mathemateg. Mae un dosbarth anghenion dysgu arbennig ym MI 9 gyda gallu cymysg fel arall ac eithro setio yn y pynciau craidd - Cymraeg, Gwyddoniaeth, Mathemateg a Saesneg.

Yn CA3 addysgir y canlynol: Addysg Grefyddol, Addysg Gorfforol, ABCh, Celf, Cerddoriaeth, Cymraeg, Daearyddiaeth, Ffrangeg, Gwyddoniaeth, Hanes, Mathemateg, Saesneg, Technoleg, Technoleg Gwybodaeth a Chyfrifiadureg (TGCh). Ar ddiwedd BI 9 bydd y disgyblion yn dewis eu pynciau ar gyfer Blynnyddoedd 10 ac 11.

Bydd rhai disgyblion yn derbyn gwersi estynedig darllen a rhif, a bydd disgyblion hwyrdydfodiad i CA3 yn treulio cyfnod yn y Ganolfan Iaith sydd wedi ei leoli ar dir yr ysgol.

### CA4

Mae pob disgybl yn dilyn cymhwyster Bagloriaeth newydd Cymru. Mae pob disgybl yn dilyn y cyrsiau canlynol: Addysg Grefyddol, Addysg Gorfforol, Addysg Gyrfaoedd (fel rhan o'i gwersi ABaCH) Cymraeg, Gwyddoniaeth, Saesneg, Mathemateg. Yn ogystal mae colofnau dewis sydd yn cynnwys y pynciau a chysiau galwedigaethol - **dyma'r opsiynau ar gyfer disgyblion BI10 a gynigir ar gyfer Medi 2019-2021**

| COLOFN A  | COLOFN B  | COLOFN C   |
|---|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hanes TGAU (E)</li> <li>• Adeiladwaith CBAC IVQ Lefel 2 (E)</li> <li>• Chwaraeon TGAU (E)</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Celf TGAU (E)</li> <li>• Daearyddiaeth TGAU (E)</li> <li>• Cyfrifiadureg TGAU (E)</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tecstilau TGAU (E)</li> <li>• Ffrangeg TGAU (E)</li> <li>• Addysg Grefyddol TGAU (E)</li> </ul> |

|  |   |  |
|--|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bwyd a Maeth TGAU (E)</li> <li>• Cerdd TGAU (YGM)</li> <li>• Trin Gwallt (A)</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Agored Cymru estynedig * (E)</li> <li>• Amaethyddiaeth BTEC Lefel 2 (C)</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylunio a Thechnoleg – Dylunio Cynnyrch TGAU (E)</li> <li>• Dug Caeredin / Cymhwyster Awyr Agored* (E)</li> </ul> |
|--|---|--|

Mae'r cyswllt rhwng Ysgol Ardudwy yn parhau gyda disgyblion yr ysgol yn dilyn cwrs Trin Gwallt, City & Guilds. Noder trefniant eleni am y tro cyntaf gyda Ysgol Glan y Môr ble mae disgyblion yn mynychu cwrs TGAU Cerdd. Bu i ddisgyblion o Ysgol Ardudwy ddod draw i Eifionydd i ddilyn cwrs Addysg Gorfforol. Mae disgyblion BI 10 a BI 11 Eifionydd yn parhau i gefnogi cyrsiau cydweithredol Coleg Meirion Dwyfor drwy ddilyn cyrsiau Peirianwaith ac Amaethyddiaeth.

### Cyswllt Cynradd /Uwchradd

Cynhelir perthynas glos rhwng y ddau sector er mwyn sicrhau fod rhieni a darpar ddisgyblion yn ymgyfarwyddo â'r ysgol uwchradd cyn dechrau ar eu cyfnod ynddi. Er mwyn cynnal y berthynas agos yma gyda'r cynradd mae Ysgol Eifionydd yn cynnig ymweliad i'r ysgol yn ystod tymor 1 a 2. Yn ystod yr ymweliadau yma mae'r disgyblion yn cael cyfle i fynychu gwersi Technoleg, Ffrangeg, Saesneg ac Addysg Gorfforol. Datblygir adnabyddiaeth dda o ddarpar ddisgyblion yn ystod y cyfnodau yma. Cynhelir hefyd noson agored i rieni blynnyddoedd 5 a 6 yn ystod mis Hydref. Cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng pennaeth blwyddyn 7 a disgyblion blwyddyn 6 yn dymhorol ynghyd â disgyblion Ysgol Eifionydd. Yn affodus nid oedd hi'n bosib cynnal y pedwar diwrnod o weithgareddau pontio i flynyddoedd 5 a 6 yn ystod tymor yr Haf oherwydd y sefyllfa Covid. Creuwyd fidio gan Mrs Lyn Parry Hughes ar gyfer blwyddyn 6 i hwyluso'r broses trosglwyddo i Eifionydd.

### System tracio cynnydd

Mae'r ysgol yn tracio holl asesiadau Cyfnod Allweddol 3 yn erbyn targedau a sefydlwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r ysgol yn dadansoddi gwybodaeth Cyfnod Allweddol 3 am ymddygiad ac ymdrech ein cynllun gwobrwyo a'r adroddiadau interim. Mae'r tracio yma yn sail i drafod dulliau a strategaethau cefnogi disgyblion unigol ac ymateb i unrhyw dangyflawni. Cynhelir cyfweiliadau aelodau grŵp tiwtor yn unigol neu mewn grwpiau er mwyn gosod targedau a monitro cynnydd.

Rhoddir sylw llawn i dracio cynnydd yn erbyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd er mwyn adrodd i rieni yn flynyddol.

Yng Nghyfnod Allweddol 4 sefydlir targedau heriol, ond cyraeddadwy i ddisgyblion ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r ysgol yn tracio cynnydd yn erbyn y targedau bob hanner tymor ac yn adrodd i rieni. Yn ystod blwyddyn 11 penodir mentor cadarnhaol i gefnogi disgyblion a sefydlu targedau personol ar sail gwybodaeth tracio.

### Cynllun Gwella Ysgol 2019-2020

Rhodddwyd sylw i:

B1. Gwella safonau ar draws yr ysgol trwy:

- cynyddu'r ganran o ddisgyblion sy'n ennill A\*/A.
- cynyddu pwyntiau cyfartalog y pwnc.

B2. Cryfhau ansawdd yr addysgu trwy ddatblygu technegau effeithiol ar gyfer herio ac ymestyn disgyblion abl.

B3. Datblygu systemau tracio CA4 ymhellach er mwyn sicrhau defnydd mwy strategol a rhagweithiol o adnabod grwpiau i'w targedu a'u cynorthwyo.

B4. Dechrau datblygu'r Cwricwlwm Newydd i *Ddysgu* ar draws y 6 maes dysgu.

Rhyddhawyd nifer o athrawon trwy'r Grant Gwella Addysg i ddilyn cyrsiau neu arweiniad pellach ar gyfer cymwysterau TGAU newydd. Rhodddwyd arweiniad allanol pellach i Adrannau ar gynhaliadaeth trwy ymweliadau GwE.

### Cynhwysiad

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi o gynhwysiad ac yn sicrhau safon uchel o addysg briodol i bob dysgwr. Mae gennym hefyd uned fydd yn gweithio ar agweddau penodol o anghenion emosiynol ac ymddygiadol dysgwyr. Pwrpas yr uned yw rhoi cefnogaeth i ddisgyblion sy'n mynd trwy gyfnodau anodd sy'n gallu effeithio ar agwedd ac ymddygiad. Cyflogir athro - Mr Sion Cadwaladr i weithredu fel Swyddog Cynhwysiad yr Uned.

Mae Rhaglen TRAC yn gweithio ac yn cynnig cefnogaeth i rai disgyblion bregus.

Mae Mrs Karen Jones yn gweithredu fel Cwnselydd yn yr ysgol am ddiwrnod yr wythnos.

Mrs Theresa Hodgson yn gweithredu fel Swyddog Presenoldeb a Phrydlondeb.

Bu i P.C. Dewi Owen, Swyddog Heddlu Ysgolion a Chymunedau ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Mae'n cyfrannu i raglen ABaCH yr ysgol i drafod materion camddefnyddio sylweddau, camddefnydd TGCH, cyffuriau ac alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r nyrs ysgol yn ogystal yn parhau i wneud 'drop ins' wythnosol.

## Ysgol Anogaeth (Nuture School):

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu'r elfen anogaeth ar gyfer disgyblion sydd â phroblemau emosiynol neu ymddygiadol. Mae'r Grŵp Anogaeth yn cael eu cynnal yn y Cob s'yn leoliad diogel a chartrefol gyda nifer o ardaloedd ac adnoddau wedi'u cynllunio i bontio'r bwlch rhwng yr ysgol a'r cartref. Defnyddir y Cob gan grŵp bychan o ddisgyblion prif-lif sy'n dilyn cwricwlwm ychydig yn wahanol am gyfnod. Gellir cynnal hyd at 10 disgybl gydag un oedolyn sy'n modelu perthnasoedd positif. Mae disgyblion yn mynychu bob bore 8:45 tan 9:15 neu am gyfnodau yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'r Grŵp Anogaeth yn cynnig dull llwyddiannus, ymarferol o addysgu sy'n cefnogi disgyblion bregus gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol. Caiff disgyblion eu dewis yn ofalus gan y tîm bugeiliol a'r Cydlynnydd ADY. Gall rhai o'r gweithgareddau cynnwys - Sesiynau llythrennedd emosiynol 'Friends', Amser stori, Rhannu newyddion, Talkabout, Nuture Lego ABC, gweithgareddau ymarferol - coginio, Forest Schools ac ymweliadau siopa i Tesco, Lexia, darllen, Trugs, Rhifedd - My Maths.

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL/ DISGYBLION GYDAG ANABLEDDAU

Mae'r ysgol yn ysgol ddynodedig i blant ac anghenion corfforol arbennig ag i blant a nam golwg ac mae wedi ei haddasu i'r pwrpas hwnnw.

Gwelir y canlynol fel y prif egwyddorion:

- Sicrhau safonau uchel a chynhwysiad cymdeithasol llawn.
- Sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant ac anghenion dysgu ychwanegol.
- Cydweithio'n effeithiol ac asiantaethau statudol perthynol i'r maes, megis yr Awdurdod Iechyd, Gwasanaeth Cymdeithasol Gyda'n gilydd, CAMHS, TRAC
- Sicrhau ymateb ysgol gyfan i anghenion dysgu ychwanegol a pheidio â chyfyngu cyfrifoldeb i staff penodol.

Mae Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'i mabwysiadu gan y Llywodraethwyr ac fe'i hadolygir yn flynyddol. Cyfrifoldeb Mrs. Ann Roberts, Cydlynnydd ADY, yw sicrhau fod y ddarpariaeth ADY yn gyflawn, yn gyfredol ac yn gywir. Y llywodraethwr Dynodedig yw Mrs Siwan Roberts.

Prif egwyddor ac amcan ADY yr ysgol yw sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i holl blant yr ysgol, beth bynnag fo'u cyflwr addysgol, corfforol neu feddygol. Dylid sicrhau'r nod yma yn ddieithriad. Mae'r ysgol yn anelu at safonau uchel ar gyfer pawb a chymhwysiad cymdeithasol llawn. Gwneir hyn trwy ateb gofynion deddf gwlad, trwy ddarparu yn ôl cyfarwyddyd ac arweiniad yr AALL a thrwy weithio yn fewnol mewn cydweithrediad â rhieni ac asiantaethau allanol, a hynny dan arolygaeth y corff llywodraethol.

|          |     |  |
|----------|-----|--|
| Adnoddau | 1.  | Llyfrau i oed darllen isel ond diddordebau i oed arddogol.                                   |
| Dysgu    | 2.  | Grwpiau cefnogi mewn llythrennedd, Rhifedd a Llawysgrifen.                                   |
|          | 3.  | Y Cymhorthyddion wedi eu hyfforddi mewn rhaglenni llythrennedd ee. O Gam I Gam, Camu 'Mlaen. |
|          | 4.  | Offer Mathemategol i ddysgu sgiliau byw.   |
|          | 5.  | Offer cyfrifiadurol – Workdshark, Numbershark, Lexia, Tric a Chlic                           |
|          | 6.  | 'Bydi' meithrin cyfeillgarwch er mwyn atal bwlio.  |
|          | 7.  | Cynlluniau Dysgu Unigol neu Broffill un tudalen i bawb ar y Gofrestr ADY                     |
|          | 9.  | Cefnogaeth unigol gan gymhorthydd addysgol.  |
|          | 10. | Cymhorthyddion ADY wedi mynychu cyrsiau HMS Cyngor Gwynedd                                   |

Cyllid Swm penodol i ADY drwy ddyraniad integreiddio'r Sir

Staff Mae'r Cydlynnydd ADY. yn gyfrifol am ateb gofynion AAA yr ysgol.

Amser i'r cydlynnydd - 6 awr yr wythnos.

Mae cyfwerth â 8 cymhorthydd addysgol.

Amser dysgu cynhaliol

Hyfforddiant Cymorth Cyntaf i staff ymdopi ag anhwylderau megis Epilepsi a sut i ddefnyddio epi pen.

Y Cydlynnydd yn darparu gwersi Rhifedd a Llythrennedd a Llawysgrifen i unigolion a grwpiau bychan o ddisgyblion am 10 awr yr wythnos.

Dwy gymhorthydd dosbarth a delir ar raddfa Uwch Gymhorthydd i ddarparu gwersi llythrennedd i unigolion a grwpiau bychan o ddisgyblion am 5 awr yr wythnos yr un.

Cymhorthyddion Dysgu hefyd yn cynnal sesiynnau 'Talkabout' ar gyfer cefnogaeth emosiynol, Learning Breakthrough a Theipio

## Asesu a Chynnal

Bydd anghenion yn cael eu canfod trwy:-

- i) Profion Cenedlaethol y Cynulliad
- ii) gwybodaeth a drosglwyddir gan ysgolion cynradd

- iii) wybodaeth a drosglwyddir gan asiantaethau allanol
- iv) waith ysgrifenedig, profion sillafu a thrwy i athrawon ddatgan pryder
- v) asesiadau darllen o fewn y gwersi Cymraeg
- vi) asesiadau darllen o fewn y gwersi Saesneg
- vii) Profion Diagnostig gan y Cydlynnydd a'r Uwchgyforyddio Llythrennedd:
- viii) Profion Rhifedd– Gillham & Hesse Basie Number Screening
- ix) Profion unigol sillafu Saesneg -Young's Parallel Spelling.
- x) Detailed Assessment of Speed of Handwriting (DASH)
- xi) Diagnostic Reading Analysis 2 (DRA)
- xii) Profion Darllen Cymraeg & Sillafu Glannau Menai

## YR IAITH GYMRAEG

Mae'r ysgol wedi ei gosod yng nghategori iaith: A Llywodraeth Cymru

Yn unol â pholisi'r Awdurdod mae Ysgol Eifionydd yn gweithredu polisi dwyieithog yn holl agweddau bywyd yr ysgol. Yr amcan yw datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn ddwyieithog er mwyn ei galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas y maent yn rhan ohoni. Bydd holl agweddau addysg yr ysgol, ei gweinyddiad, ei bywyd cymdeithasol, ei threfn fugeiliol a'i darpariaeth academaidd yn hyrwyddo ac yn atgyfnerthu'r polisi iaith. Bydd addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn rhan o gwrs addysg pob plentyn trwy gydol ei bum mlynedd yn yr ysgol. Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer y disgyblion hynny a ddaw i'r ysgol yn ystod Bl 7-11 heb wybodaeth ddigonol o'r Gymraeg a'r Saesneg. Gwnawn ddefnydd o'r Ganolfan Iaith sydd wedi ei lleoli ar y safle.

## CYFLEUSTERAU TOILEDAU

Darperir cyfleusterau toiledau digonol i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr o safon ddigonol.

Mae toiled ar gyfer unigolion gydag anableddau ar lawr isaf yr ysgol ger y brif dderbynfa.

Mae toiledau staff, ymwelwyr a thoiledau disgyblion ar wahân wedi eu lleoli o amgylch yr ysgol.

Mae'r toiledau yn cael eu glanhau yn drylwyr ar ddiwedd pob diwrnod ysgol.

Mae cynlluniau ar y gweill gan yr Awdurdod i ddefnyddio arian grant maent wedi ei dderbyn gan y Cynulliad i wneud newidiadau sylweddol i adeiladau'r ysgol gan gynnwys adnewyddu'r holl doiledau ar draws yr ysgol. Bydd y gwaith yma yn digwydd yn ystod y flwyddyn addysgol 2020-2021.

## BWYTA'N IACH

Rydym wedi ymrwmo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer 'Blas am Oes'e.e. dim diodydd melys pefriog, digon o ffrwythau a llysiau a chydbwysedd maeth. Mae'r ysgol yn gweithredu o fewn canllawiau 'Blas am oes Llywodraeth Cymru'. Cynhelir cyfarfodydd o'r Grŵp Snag yn rheolaidd rhwng cynrychiolwyr yr Awdurdod Gwasanaeth Darparu, y gogyddes ac aelodau'r Cyngor Ysgol. Mae mewnbyn y disgyblion yn cael ei ymgorffori ym mwydlenni'r ysgol. Yn ogystal amlygir pwysigrwydd bwyta'n iach mewn gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Technoleg Gwybodaeth a Gwyddoniaeth yn benodol. Mae system SchoolGateway yr ysgol yn hysbysu rhieni o ddiet eu plant.